# CYNLLUNIAU MARCIO TGAU

**GAEAF 2024**

**TGAU**
**LLENYDDIAETH GYMRAEG - UNED 1**
**HAEN UWCH**
**3010NA0-1**

© WJEC CBAC Cyf.

**RHAGARWEINIAD**

Defnyddiwyd y cynllun marcio hwn gan CBAC ar gyfer arholiad 2024. Penderfynwyd arno'n derfynol yn dilyn trafodaeth fanwl mewn cynadleddau arholwyr gan yr holl arholwyr oedd yn ymwneud â'r asesiad. Cynhaliwyd y gynhadledd yn fuan ar ôl sefyll y papur fel y gellid cyfeirio at yr amrediad llawn o ymatebion ymgeiswyr, gyda sgriptiau wedi'u llungopïo yn sail i'r drafodaeth. Amcan y gynhadledd oedd sicrhau bod y cynllun marcio wedi'i ddehongli a'i gymhwyso yn yr un modd gan yr holl arholwyr.

Gobeithir y bydd y wybodaeth hon o gymorth i ganolfannau ond cydnabyddir ar yr un pryd y gallai fod gan athrawon safbwyntiau gwahanol ynglŷn â manylion neu ddehongli gan nad ydynt wedi bod yn rhan o'r gynhadledd farcio.

Mae'n flin gan CBAC ond nid oes modd iddo ymgymryd ag unrhyw drafodaeth na gohebiaeth am y cynllun marcio hwn.

© WJEC CBAC Cyf.

**TGAU LLENYDDIAETH GYMRAEG**

**UNED 1 - HAEN UWCH**

**GAEAF 2024 CYNLLUNIAU MARCIO**

**Etifeddiaeth** gan Gerallt Lloyd Owen

**11.12.82** gan Iwan Llwyd

**Cymharu**

Gellir sôn am bwyntiau megis:

- Mae'r ddwy gerdd yn cyfeirio at Gymru. Mae Gerallt Lloyd Owen yn cyfeirio at fwy nag un elfen o'n hanes ond mae Iwan Llwyd yn canolbwyntio ar nodi marwolaeth Llywelyn ein Llyw Olaf.

- Mae Iwan Llwyd yn gwneud llawer o ddefnydd o fyd natur yn ei gerdd ond un elfen o fyd natur yn negyddol sef 'plannu coed' a welir gan Gerallt Lloyd Owen.

- Mae Iwan Llwyd yn cyfeiro'n benodol at 'erchwyn y dibyn' ac mae Gerallt Lloyd Owen yn creu darluniau sy'n awgrymu ein bod ni ar ochr dibyn.

- Mae 11.12.82 yn gorffen yn obeithiol gan edrych ymlaen yn hyderus i'r dyfodol ond mae Etifeddiaeth yn cyfeirio at farwolaeth Cymru.

- Mae'r ddau fardd yn ein hannog i garu ein gwlad, ond mewn ffyrdd gwahanol.

ⓗ WJEC CBAC Cyf.

**Etifeddiaeth**

Gellir sôn am bwyntiau megis:

- Yn y gerdd hon pwysleisia'r bardd yr hyn yr ydym ni wedi ei gael a'r hyn yr ydym ni wedi'i golli.
- Rhestrir tri pheth tebyg iawn, sef gwlad, cenedl ac iaith. Dim ond darn o dir ydy'r wlad, ond mae'n profi ein bod ni'n dal yma.
- Mae'r cyfeiriad at genedl yn profi ein bod ni'n bobl ar wahân, a bod gennym 'ein hanes ni ein hunain'.
- Yn ôl y bardd, mae'r iaith wedi bod yma, yn rhan o'r tir erioed.
- Er ein bod ni wedi cael hyn oll, rydyn ni wedi eu hanwybyddu a'u troi i greu dieithrwch.
- Rydyn ni wedi anffurfio'r tir trwy adeiladu pethau sy'n brifo'r llygad.
- Ceir awgrym bod rhywbeth sydd fel arfer mor hardd â llyn bellach yn anharddu'r lle.
- Rydyn ni bellach yn genedl o bobl nad ydyn ni'n gwybod ein hanes ni.
- Does dim asgwrn cefn gennym bellach, dim ond 'gwymon o ddynion', ac mae gan ambell un gywilydd o'i iaith.
- Mae'n crisialu'r cyfan mewn dihareb ar y diwedd. Mae'n gresynu bod rhai pobl yn canolbwyntio ar bethau sydd yn eu barn nhw'n mynd i wella'r genedl, ac yn colli golwg ar y pethau sydd wir yn bwysig i ni.
- Dim ond trwy ymladd am y pethau pwysig hyn y gallwn ni fod yn sicrhau dyfodol y genedl.

© WJEC CBAC Cyf.

**11.12.82**

Gellir sôn am bwyntiau megis:

- Mae'r gerdd yn agor gyda golygfa yng Nghilmeri lle mae'r bardd yn dweud bod 'saith canrif [wedi dod] ynghyd'
- Mae'n defnyddio'r tywydd i greu awyrgylch gyda'r 'dail yn diferu', a'r 'dydd yn gymylau gwelwon'.
- Dywed Iwan Llwyd ein bod yn sefyll ar erchwyn y dibyn. Mae hyn yn drosiad sy'n darlunio ein bod fel cenedl mewn perygl difrifiol o gael ein trechu.
- Mae'n cofio am y bobl sydd wedi marw yn amddiffyn ein gwlad, a'r brwydrau a gollwyd wrth i ni 'gyfri'r colledion yn dawel'.
- Mae'n parhau gyda thema'r tywydd wrth nodi bod 'yr awel ar rewi llif Irfon.'
- Yn sydyn cawn newid yn naws y gerdd wrth i'r bardd newid o fod yn sôn am y gorffennol i fod yn sôn am y dyfodol.
- Mae llais baban yn newid yr awyrgylch, ac mae'r oerfel yn ildio'i le i'r cynhesrwydd. Mae'r rhew yn toddi, ac mae'r bardd yn edrych ymlaen at 'her canrif newydd'.

**Neges**

Efallai fod y ddau fardd yn y pen draw yn dyheu am yr un peth. Mae angen i ni fod yn edrych ar ein gorffennol os ydym ni am weld Cymru'n llwyddo fel gwlad.

© WJEC CBAC Cyf.

**Arddull Etifeddiaeth**

Gellir sôn am bwyntiau megis:

| Enghraifft | Nodwedd |
|---|---|
| cawsom/troesom | ailadrodd a/neu gyferbyniad |
| darn o dir | rhangymeriad |
| gwymon o ddynion | trosiad |
| iaith yr oesau/iaith ein cywilydd | cyferbyniad |
| a oes dihareb...? | cwestiwn |
| hedd/angau | trosiad/cyferbyniad |

**Arddull 11.12.82**

Gellir sôn am bwyntiau megis:

| Enghraifft | Nodwedd |
|---|---|
| saith canrif | ailadrodd |
| diferu atgofion | trosiad |
| gymylau gwelwon | cydymdeimlad natur |
| yn ddistaw/bloeddiodd | cyferbyniad |
| toddi/chwalu | rhestru |
| gwaedd | defnydd o synhwyrau |

**Mesur**

**Etifeddiaeth: Y Wers Rydd Gynganeddol**

Mae'r wers rydd yn cyfleu'r anrhefn sydd yn llygad y bardd wrth iddo feddwl am Gymru heddiw. Nid oes trefn yma, ac mae'r cyfan ar chwâl. Ond mae'r ffaith ei fod wedi dewis ysgrifennu'r gerdd mewn cynghanedd yn awgrymu bod traddodiad a hanes yn bwysig iddo. Hefyd, wrth wrando'n ofalus, gallwn barhau i glywed, trwy gyfrwng y gynghanedd, pa mor hyfryd y gallai Cymru fod.

**11.12.82: Y Wers Rydd / Penrhydd / Mydr ac Odl / Efelychu Englyn Milwr**

Mae rythm y gerdd yn awgrymu mydr, ac mae yma odli, er nad yw'r patrwm yn gwbl gyson. Mae yma odli mewnol yn ogystal ag odli diwedd rhai llinellau. Byddai mydr ac odl yn fwy cywir felly, ond byddai 'y wers rydd/vers libre' yn cael ei dderbyn. Mae torri ychydig ar y patrwm yn adlewyrchu nad yw popeth fel y dylai fod yng Nghymru.

© WJEC CBAC Cyf.

| | |
|---|---|
| **31-40** | • Dadansoddi a dangos dealltwriaeth dreiddgar o'r cynnwys a'r neges/thema<br>• Trafod yn dreiddgar addasrwydd ac effeithiolrwydd arddull, mesur ac iaith i greu awyrgylch<br>• Defnyddio termau beirniadaeth lenyddol yn dreiddgar<br>• Dangos ymateb personol treiddgar<br>• Defnyddio dyfyniadau yn effeithiol<br>• Cymharu testunau'n fedrus<br>• *Cyflwyno'r gwaith yn glir a chydlynol*<br>• *Gafael sicr iawn ar sillafu, atalnodi a gramadeg* |
| **21-30** | • Dadansoddi a dangos dealltwriaeth dda o'r cynnwys a'r neges/thema<br>• Trafod yn dda addasrwydd ac effeithiolrwydd arddull, mesur ac iaith i greu awyrgylch<br>• Defnyddio termau beirniadaeth lenyddol yn dda<br>• Dangos ymateb personol da<br>• Defnyddio dyfyniadau yn addas a phwrpasol<br>• Cymharu testunau'n ystyrlon<br>• *Cyflwyno'r gwaith yn glir a threfnus*<br>• *Gafael sicr ar sillafu, atalnodi a gramadeg* |
| **11-20** | • Dangos dealltwriaeth eithaf da o'r cynnwys a'r neges/thema<br>• Trafod yn eithaf da addasrwydd ac effeithiolrwydd arddull, mesur ac iaith i greu awyrgylch<br>• Defnyddio rhai termau beirniadaeth lenyddol<br>• Dangos ymateb personol eithaf da<br>• Defnyddio dyfyniadau yn addas<br>• Cymharu testunau'n eithaf da<br>• *Cyflwyno'r gwaith yn drefnus*<br>• *Gafael gyson ar sillafu, atalnodi a gramadeg ar y cyfan* |
| **0-10** | • Dangos peth dealltwriaeth am gynnwys a neges/thema<br>• Trafod ychydig ar addasrwydd arddull, mesur ac iaith i greu awyrgylch<br>• Defnyddio ambell derm beirniadaeth lenyddol<br>• Ymgais i ymateb yn bersonol<br>• Defnyddio ambell ddyfyniad<br>• Ymgais i gymharu testunau<br>• *Cyflwyno'r gwaith yn lled drefnus*<br>• *Gafael anghyson ar sillafu atalnodi a gramadeg* |



© WJEC CBAC Cyf.